# Cyngor Gwynedd Council

# Cynllun Darparu Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd 2022-23

# Diogelwch Bwyd ,Hylendid a Safonau Bwyd

**TABL CYNNWYS**


| | | |
|---|---|---|
| **DIFFINIADAU** | | **4** |
| **1.0** | **CYFLWYNIAD** | **5** |
| **2.0** | **AMCANION Y GWASANAETH** | **6** |
| 2.1 | Nod | 6 |
| 2.2 | Amcanion | 6 |
| 2.3 | Amcanion Corfforaethol | 7 |
| 2.4 | Mesurau Monitro Perfformiad | 9 |
| **3.0** | **CEFNDIR** | **10** |
| 3.1 | Proffil Gwynedd | 10 |
| 3.2 | Strwythur y Sefydliad a Llinellau Adrodd | 11 |
| 3.3 | Sgôp y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd a'r Gwasanaeth Safonau Masnach | 11 |
| 3.4 | Gwasanaethau / Partneriaid Allanol Arbenigol | 13 |
| 3.5 | Lleoliad y Gwasanaethau | 13 |
| 3.6 | Gofynion ar yr Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch | 13 |
| 3.7 | Polisi Gorfodaeth | 15 |
| **4.0** | **DARPARU'R GWASANAETH** | **15** |
| 4.1 | Ymyriadau Mewn Eiddo Bwyd | 15 |
| 4.2 | Ymyriadau Hylendid Mewn Cynhyrchwyr Cynradd | 17 |
| 4.3 | Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol | 17 |
| 4.4 | Rhaglen Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cyngor Gwynedd 2022-23 | 18 |
| 4.5 | Rhaglen Ymyrraeth Safonau Bwyd Cyngor Gwynedd 2022-23 | 18 |
| 4.6 | Ymyrraeth Hylendid Bwyd Cynhyrchiad Cynradd | 19 |
| 4.7 | Ail Ymweliadau Gorfodaeth | 20 |
| 4.8 | Ail Ymweliad Yn Dilyn Cais Am Ail Sgorio'r Sgôr Hylendid Bwyd | 20 |
| 4.0 | Cwynion am fwyd a Cheisiadau am Wasanaeth | 21 |
| 4.10 | Awdurdodau Cynradd / Cartref a Chyngor i Fusnesau | 22 |
| 4.11 | Samplu Bwyd ac Archwiliadau | 22 |
| 4.12 | Ymchwiliadau i Achosion o Salwch ac Afiechydon Heintus yn gysylltiedig â Bwyd | 23 |
| 4.13 | Digwyddiadau Diogelwch Bwyd | 25 |
| 4.14 | Cyswllt â Sefydliadau Eraill | 25 |
| 4.15 | Hyrwyddo Diogelwch Bwyd | 26 |
| 4.16 | Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion | 26 |
| 4.17 | Camau Ffurfiol Diogelwch Bwyd | 27 |
| 4.18 | Bwyd Mwy Diogel Gwell Busnes - Safer Food Better Business (SFBB) | 27 |
| 4.19 | Busnesau Newydd | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| **5.0** | **ADNODDAU** | **29** |
| 5.1 | Dyraniad Ariannol | 29 |
| 5.2 | Adnodd Staff | 31 |
| **6.0** | **SICRWYDD ANSAWDD** | **34** |
| 6.1 | Gweithdrefnau a Ddogfennir | 34 |
| 6.2 | Asesiadau ac Archwiliadau | 34 |
| **7.0** | **ADOLYGIAD** | **35** |
| 7.1 | Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth | 35 |
| 7.2 | Adolygu Perfformiad yn erbyn Cynllun Gwasanaeth 2019-20 | 35 |
| 7.3 | Llwyddiant | 37 |
| 7.4 | Meysydd i'w Gwella 2022-23 | 38 |
| 7.5 | Ffactorau sy'n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod 2022-23 | 39 |

Atodiad 1 – Perfformiad Hylendid Bwyd 2021-22 41
Atodiad 2 - Perfformiad Safonau Bwyd 2021 -22 44
Atodiad 3 – Perfformiad Cynhyrchwyr Cynradd (Hylendid) 2021-22 45

**Rheolaeth weinyddol yr Adroddiad**

| **Enw** | **Diogelwch Bwyd: Hylendid a Safonau Bwyd** |
|---|---|
| Fersiwn | Terfynol |
| Statws | Byw |
| Prif Swyddog | Alun Evans, Public Protection Manager |
| Llofnod | |
| Cynhyrchwyd gan | Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd |
| Wedi ei gymeradwyo gan | Dafydd Wyn Williams |
| Dynodiad | Pennaeth Adran Amgylchedd |
| Llofnod | |
| Dyddiad cymeradwyo | 01/07/22 |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf. | 1/04/23 |

**DIFFINIADAU**

| | | |
|---|---|---|
| OPPS | - | Swyddfa ar Gyfer Diogelwch Cynnyrch a Safonau |
| CEFAS | - | Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth |
| CIEH | - | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| DPP | - | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| AGC | - | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| DPPW | - | Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru |
| TASCOMI | - | System cronfa ddata Gwarchod y Cyhoedd |
| CSHB | - | Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| ASB | - | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| CLLA | - | Cyfwerth â Llawn Amser |
| ALl | - | Awdurdodau Lleol |
| GHC | - | Gwasanaeth Hylendid Cig |
| ICC | - | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| PCCGD | - | Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy |
| PDBGC | - | Panel Diogelwch Bwyd ac Afiechydon Heintus Gogledd Cymru |
| PHLS | - | Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus Cymru - Adran Microbioleg |
| SFBB | - | Bwyd Mwy Diogel, Gwell Busnes |
| BBAC | - | Busnesau Bach a Chanolig |
| DU | - | Y Deyrnas Unedig |
| FFMBC | - | Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymreig |
| UTBC | - | Uned Twyll Bwyd Cenedlaethol |
| WHoEH | - | Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| WHoTS | | Penaethiaid Safonau Masnach Cymru |
| CLLC | - | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| DC | - | Dŵr Cymru |

## 1.0 Cyflwyniad

.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fel rhan o gytundeb fframwaith diogelwch bwyd cenedlaethol yn gofyn i bob awdurdod lleol baratoi cynllun darparu gwasanaeth blynyddol.

Mae’r cynllun yn adlewyrchu’r gwaith y mae'r ASB yn gofyn i awdurdodau bwyd ei wneud dan ofynion y Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a'r cytundeb fframwaith ar orfodaeth sydd yn ei le ar gyfer awdurdodau lleol.

Fe fu i’r Awdurdod gyhoeddi cynllun ddiwethaf ar gyfer 2019-20. Oherwydd y pan demig Cofid 19 cafodd y mwyafrif o ymyraethau diogelwch bwyd eu hatal yng Ngwynedd o ddiwedd Mawrth 2020 ymlaen. Ailgyfeiriwyd swyddogion o gynnal gwaith diogelwch bwyd i waith atal lledaeniad Cofid 19.

Dychwelodd swyddogion i gynnal ymyraethau diogelwch bwyd rhaglenedig yn raddol o fis Medi 2021 ymlaen.

Yn ystod y pan demig parhaodd swyddogion i ddelio gyda materion diogelwch bwyd brys ymatebol a gwaith oedd yn ymwneud a chynorthwyo masnach dramor , monitro rhagweithiol a gwaith afiechydon heintus arall.

Yn Mehefin 2021 fe gyhoeddodd yr ASB gynllun adfer cynghorau lleol ar gyfer 1/7/21-2023/24. Bwriad y cynllun ydy darparu cyngor i Lywodraethau Lleol i sicrhau , yn ystod y cyfnod adfer o effaith y pan demig, fod adnoddau yn cael eu targedu lle byddent yn cynnig y gwerth mwyaf mewn perthynas â gwarchod iechyd cyhoeddus a hawliau treulwyr.

Mae’r cynllun yma yn manylu sut fydd Cyngor Gwynedd yn cwrdd ag amcanion cynllun adfer yr ASB yn ystod 2022-23.

## 2.0 Amcanion y Gwasanaeth

### 2.1 Nod

Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ymroddedig i sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu i'w fwyta a'i yfed gan bobl, sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddosbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir, yn rhydd o unrhyw berygl i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a labelu.

Bydd y Gwasanaeth yn arddel dull gorfodaeth sy'n seiliedig ar asesu'r risg i iechyd cyhoeddus a methiant i gwrdd â gofynion statudol.

Mae gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd bolisi gorfodaeth, a bydd staff yn ymgymryd â gweithgareddau a fanylir yn y Cynllun Gwasanaeth hwn yn unol â'r polisi.

Rhoddir sylw hefyd i'r arweiniad a geir yng nghanllawiau'r ASB ac i arweiniad gan gyrff cydnabyddedig fel yr OPPS.

Bydd y Gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at ymdrechion y Cyngor i gwrdd â goblygiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### 2.2 Amcanion

Amcanion y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yng nghyd-destun diogelwch bwyd yw fel a ganlyn:

- Gweithredu rhaglen flynyddol o ymyraethau a gorfodaeth hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â gofynion statudol, Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau perthnasol. Bydd ymyraethau o'r fath yn cael eu cynnal ar y cyd ag ymyriadau a gynhelir yng nghyswllt swyddogaethau statudol eraill.

- Cefnogi'r rhaglen archwiliadau blynyddol gyda rhaglen ymyriadau eraill fel gorfodaeth amgen a samplu bwyd , lle fo angen ac yn briodol i wneud hynny.

- Ymchwilio i gwynion, a gweithredu'n briodol yn unol â Chod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) a chanllawiau perthnasol.

- Darparu gwybodaeth a chyngor i fusnesau a defnyddwyr. Lle fo adnoddau yn caniatáu, cefnogi busnesau bwyd a defnyddwyr trwy gyngor, hyrwyddo ymarfer da a mentrau addysgol wedi'u targedu.

- Cymeradwyo sefydliadau  cynnyrch sbesiffig sy’n destun rheolaeth yn unol â’r cyngor sydd ar gael.

- Cynnal a gwella cymwysterau swyddogion sy’n gorfodi cyfraith diogelwch bwyd.

## 2.3 Amcanion Corfforaethol

Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yn cynnwys datganiad sy’n crynhoi ein gweledigaeth sef:

‘**Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned, mewn sir sy’n un o’r siroedd gorau i fyw ynddi.’**

Mae’r cynllun hwn yn cyfrannu at wneud Gwynedd yn le iach, saff a chynaliadwy i fyw a gweithio.

Mae’r cynllun yn rhannol seiliedig ar asesiad lles Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

Oddi fewn y cynllun gwella a’r datganiad lles sydd yn gynwysedig  yng nghynllun y Cyngor 18-23, mae saith amcan lles a 6 blaenoriaeth gwella.

Mae’r saith amcan lles am sicrhau gall trigolion Gwynedd:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a’u teuluoedd.
- Derbyn addysg o’r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ac sy’n bosib
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

Mae’r tabl nesaf yn rhestru rhai o’r cysylltiadau rhwng gwaith y Gwasanaeth a rhai o’r amcanion lles ar blaenoriaethau gwella.

| **Amcan Lles** | **Blaenoriaeth Gwella Berthnasol** | **Cysylltiad gyda gwaith yr Uned** |
|---|---|---|
| Trigolion Gwynedd i fwynhau bywydau hapus, iach a diogel | | Mae'r tîm lles yn cynnal ymyraethau yn cynnwys archwiliadau a darparu cyngor i fusnesau drwy'r Sir. Mae'r ymyraethau yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau hylendid a safonau bwyd. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau fod bwyd a gynhyrchir, werthir neu ei fwyta yng Ngwynedd yn saff .<br><br>Bydd swyddogion yn annog busnesau i wella eu safonau, a drwy hyn sicrhau gwelliant mewn amgylchiadau i drigolion ac ymwelwyr.<br><br>Rydym yn codi ymwybyddiaeth o alergedd ac anoddefiad bwyd ac yn amlygu sut a pha gynhwysion sy'n effeithio rhai grwpiau bregus yn ein cymdeithas. |
| Trigolion Gwynedd i ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd. | Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da. | Drwy ymgymryd â gwaith diogelwch bwyd mae'r uned yn ymdrechu i sicrhau nad yw busnesau bwyd yng Ngwynedd yn achosi gwenwyn bwyd. Gall achosion o wenwyn bwyd cysylltiedig greu difrod economaidd sylweddol drwy:<br><br>-Dioddefwyr yn methu gweithio a cheisio triniaeth feddygol<br>- Busnesau a gysylltir gydag achosion gwenwyn bwyd yn colli eu 'henw da' a chwsmeriaid.<br>-Cyhoeddusrwydd negyddol yn cael effaith andwyol ar niferoedd ymwelwyr i'r ardal.<br><br>Drwy sicrhau cydymffurfiaeth a gofynion rheolaethol mae'r uned yn gweithio gyda busnesau dilys wrth gymryd camau pendant i ddelio a busnesau sy'n dewis peidio.<br><br>Darparir cyngor a chymorth i fusnesau gyda'r nod o sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion eu cwsmeriaid , yn cynnig cyflogaeth yn lleol ac yn cynhyrchu proffid i fuddsoddwyr.<br>Mae monitro a chynghori ar safonau |

| | | |
|---|---|---|
| | | rheolaethol yn cynorthwyo cynnal economi deg a chynaliadwy.<br><br>Mae gan fusnesau bwynt cyswllt uniongyrchol.<br><br>Yng Ngwynedd mae nifer fawr o eiddo bwyd yn fentrau teuluol.<br><br>Mae Gwaith y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cynorthwyo'r sector masnachu a sector gwasanaethau ac yn helpu cynnal yr economi'n lleol. |
| Trigolion Gwynedd yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg. | Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. | Bydd pob gwasanaeth rheng flaen ar gael / yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae ymdrech yr uned i hyrwyddo ymarfer busnes da / cydymffurfiaeth drwy ddefnydd y Gymraeg yn cyfrannu tuag at gymuned naturiol Gymraeg. |

## 2.4 Mesurau Monitro Perfformiad

Mae mesurau monitro perfformiad y gwasanaeth (bwyd a diogelwch) ar gyfer 2012-23 wedi ei rhestru isod. Defnyddir y mesurau i sefydlu cyfraniad y gwasanaeth at gwrdd ag amcanion y Cyngor sydd wedi eu manylu yng nghynllun 2018-23.


| **Gwasanaeth** | **Cyfeirnod** | **Disgrifiad** |
|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | G1 | % o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar lefel gwasanaeth. |
| | G5 | % o geisiadau am wasanaeth gafodd eu cau oddi fewn i gyfnod penodol. |
| | G6 | % o fusnesau sydd yn cyrraedd safonau hylendid bwyd (gyfystyr a sgôr hylendid bwyd o 3 neu uwch) |
| | G8 | % o fusnesau bwyd a dderbyniodd archwiliad hylendid bwyd yn unol ar rhaglen archwiliadau dros gyfnod penodol. |
| | G9 | % o fusnesau bwyd a dderbyniodd archwiliad safonau bwyd yn unol ar rhaglen archwiliadau dros gyfnod penodol. |

## 3.0 Cefndir

### 3.1 Proffil Gwynedd

Lleolir Gwynedd yng Ngogledd Orllewin Cymru.  Dyma'r ail sir fwyaf yng Nghymru, yn cynnwys 12.26% o gyfanswm yr arwynebedd tir, dros ardal sy'n 2,548 cilometr sgwâr.  Mae Gwynedd yn ymestyn o Abergwyngregyn yn y gogledd i Aberdyfi yn y de, pellter ar y ffordd o 130 cilomedr, ac o Uwchmynydd yn y gorllewin i Landderfel yn y dwyrain, pellter ar y ffordd o 103 Cilomedr.  Mae gan Wynedd 301 cilomedr o arfordir, sef yr arfordir hiraf o holl Awdurdodau Unedol Cymru.  Prif drefi Gwynedd yw Caernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau.

Poblogaeth Gwynedd yn 2021 (Canlyniadau'r cyfrifiad) oedd 117,400  .Mae crynhoad o'r boblogaeth yn preswylio yng ngogledd y sir ym Mangor, Caernarfon a'r trefi a phentrefi cyfagos.



## 3.2 Strwythur y Sefydliad a Llinellau Adrodd

Y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd sy'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith a fanylir yn y cynllun yma ydy'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch ar Gwasanaeth Safonau Masnach. Yr Aelod Cabinet dros Adran yr Amgylchedd sy'n gyfrifol am Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd. Y Pwyllgor Craffu Cymunedau sy'n gyfrifol am graffu ei benderfyniadau ac am graffu darpariaeth y gwasanaeth gan yr Adran .

Manylir trefn reolaethol Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd isod:

Pennaeth Adran Amgylchedd
▼
Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
▼
Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd
▼
Swyddogion Gwarchod y Cyhoedd, Swyddogion Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd,.

## 3.3 Sgôp Gwaith y Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch ar Gwasanaeth Safonau Masnach

Mae'r ddwy uned yn cyfrannu tuag at a chynnal:

- Sefydlu a chadw cofrestr gyfredol o bob eiddo bwyd o fewn y Sir.

- Cwblhau ymyraethau mewn eiddo bwyd. Mae'r ymyraethau yn cael eu rhaglennu yn unol â'r cynllun graddio ymyrraeth mewn sefydliadau bwyd, fel y rhagnodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru). Wrth lunio'r rhaglen rhoddir ystyriaeth i beryglon posib, lefel y gydymffurfiaeth a hyder yn systemau rheolaethol busnesau. Mae swyddogion yn cynghori ar ymarfer da ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Caiff ymyraethau hylendid bwyd eu rhaglennu fel y gellir eu cynnal ar y cyd â safonau bwyd neu/ ac iechyd a diogelwch, cyn belled â bod hynny'n bosib.

- Ail ymweliadau – Pan fo gofyn i weithredwr busnes bwyd gwblhau gwaith i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelwch / safonau bwyd, gellir cynnal ail ymweliad â'r eiddo ar ôl y dyddiad a roddwyd ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth.

- Ymchwilio i Gwynion - Mae'r uned yn ymateb i bob cwyn a dderbynnir am fusnesau bwyd a bwyd a brynwyd yn ardal, lle fo'r achwynydd yn fodlon darparu eu henw/ manylion cyswllt. Byddwn yn ymchwilio i bob cwyn a sefydlu pa fesurau gorfodaeth sy'n briodol er mwyn sicrhau y cymerir rhagofalon i atal digwyddiad arall yn y dyfodol. Mae hyn yn aml yn golygu cysylltu â chwmnïau gweithgynhyrchu , awdurdodau lleol / awdurdodau cartref / awdurdodau cynradd eraill.

- Adnabod busnesau bwyd newydd yn fuan wedi iddynt sefydlu, ac ymweld â'r eiddo hynny i gwblhau ymyraethau a darparu cyngor ac arweiniad.

- Ymchwilio i salwch o fwyd – Derbynnir hysbysiadau am achosion o wenwyn bwyd gan feddygon teulu, y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Gymru (ICC) a'u gwasanaethau labordy. Byddwn yn ymchwilio i bob hysbysiad ac yn cymryd camau priodol i atal heintiau rhag ymledu.

- Addysgu a Hyrwyddo Hylendid a Safonau Bwyd - Fel rhan o ymrwymiad y gwasanaeth i hyrwyddo iechyd cyhoeddus, mae'r gwasanaeth yn cynnal amryw o fentrau diogelwch bwyd. Yn flaenorol mae'r rhain wedi cynnwys seminarau i fusnesau lleol, cymryd rhan mewn wythnos ddiogelwch bwyd, darparu taflenni newyddion a darparu cyngor a chymorth i fusnesau yn ystod ymyraethau rhaglenedig neu yn dilyn cais.

- Digwyddiadau a Rhybuddion am Fwyd - Pan gyhoeddir rhybuddion bwyd gan yr ASB yng nghyswllt bwydydd penodol a lle adnabyddir yr angen, bydd yr uned yn cymryd pob mesur priodol i sicrhau nad yw'r bwydydd yn cael eu rhoi ar werth yn y Sir. Gall y gwasanaeth hefyd gofnodi digwyddiad bwyd gyda'r ASB. Lle fo pryder am fygythiad i ddiogelwch neu safon bwyd gall fo angen ymyrraeth genedlaethol i warchod buddiannau treulwyr.

- Cymeradwyo Sefydliad Bwyd - Mae angen caniatâd ymlaen llaw gan yr awdurdod lleol ar gyfer gweithredu rhai prosesau bwyd. Yng Ngwynedd mae'r rhain yn cynnwys prosesau yn ymwneud a chynnyrch llaeth, cynnyrch cig, cynnyrch pysgod a safleoedd pacio wyau. Caiff y sefydliadau eu harchwilio cyn rhoi cymeradwyaeth iddynt, a chânt eu monitro'n rheolaidd wedi hynny i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol.

- Samplu Bwyd - Byddwn yn samplu bwyd er mwyn monitro safonau diogelwch a safonau bwyd yn ystod ymyraethau ac fel rhan o raglenni samplu bwyd lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

- Samplu Pysgod Cregyn – Gwneir gwaith samplu i fonitro statws hylendid ardaloedd dynodedig sy'n cynhyrchu pysgod cregyn.

- Bwyd sy'n cael ei fewnforio – Ymchwilio i honiadau neu amgylchiadau sy'n awgrymu bod bwyd sydd wedi'i fewnforio wedi'i halogi, lygru neu wedi cael ei fewnforio'n anghyfreithlon, a chymryd y camau angenrheidiol.

- Cyflenwadau Dŵr ffynnon/ mwynol - Mae tri sefydliad sy'n potelu dŵr yn cael eu gorchwylio gan y gwasanaeth. Mae ymyraethau yn cael eu cynnal yn rheolaidd i

sicrhau fod y dŵr yn cwrdd â safon yfed a bod y wybodaeth a ddarparir i gwsmeriaid yn cydymffurfio gyda rheolau cyfredol.

- Gwasanaethau Eraill - Yn ddibynnol ar gymhwysedd y swyddogion, disgwylir iddynt ymdrin â materion iechyd a diogelwch galwedigaethol sy'n codi yn ystod ymyraethau diogelwch / safonau bwyd. Pan fo angen, byddant hefyd yn ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr ac afiechydon heintus ar wahân i wenwyn bwyd; yn rhoi sylwadau ar geisiadau am drwydded eiddo dan y Ddeddf Trwyddedu 2003 ac ar geisiadau cynllunio a rheolaeth adeiladu sy'n ymwneud ag eiddo bwyd.

## 3.4 Gwasanaethau/Partneriaid Allanol Arbenigol

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Dadansoddi Bwyd | Gwasanaethau Dadansoddi Cyhoeddus Gwyddonol Cyf |
| Archwiliwr Bwyd | Adran Microbioleg Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysbyty Gwynedd |
| Swyddog Priodol | Iechyd Cyhoeddus Cymru |

## 3.5 Lleoliad Gwasanaethau

Mae'r gwasanaeth bwyd a diogelwch yn cael ei ddarparu o dair swyddfa ardal sef Swyddfa Ardal Arfon (Mona), Caernarfon; Swyddfa Ardal Dwyfor, Pwllheli a Swyddfa Ardal Meirionnydd, Dolgellau. Oriau agor y swyddfeydd yw dydd Llun i ddydd Gwener 09:00 - 17:00.

Gwneir gwaith ymyrraeth y tu allan i oriau pan nad yw'r eiddo'n gweithredu yn ystod y dydd. Y polisi yw bod ymyraethau bwyd, oni bai bod amgylchiadau eithriadol, yn cael eu cynnal heb rybudd er mwyn gweld y busnes yn gweithredu fel y mae mewn gwirionedd. Mae hefyd ddarpariaeth ymateb i argyfwng tu allan i oriau arferol .

## 3.6 Gofynion ar y Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch

Mae Gwynedd yn cynnwys cymysgedd o eiddo gweithgynhyrchu, manwerthu ac arlwyo. Y sectorau arlwyo a manwerthu yw'r rhai mwyaf. Busnesau bychain a chanolig (BBAC) sydd yn y sectorau hyn yn bennaf. Mae hefyd nifer fawr o gynhyrchwyr cynradd (anifeiliaid) yn y Sir.

Ar y  1af o Ebrill 2022, roedd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am orfodi gofynion diogelwch bwyd mewn dros 2300 o eiddo bwyd yn y Sir. Ddechrau Ebrill roedd y Cyngor yn gyfrifol am dros 2000 o fusnesau sy'n cynhyrchu bwyd ar lefel cynradd (cynnyrch ac anifeiliaid)

Mae'r rhaglen asesu risg ar gyfer hylendid a safonau bwyd wedi'i hamlinellu yn y cynllun graddio ymyrraeth yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru), ac mae'r meini prawf yn nodi y dylai pob eiddo bwyd fod yn cael eu goruchwylio i ryw raddau, er bod y Cod yn caniatáu defnyddio dulliau gorfodaeth amgen gydag eiddo sy'n peri'r risg lleiaf.

**Tabl yn arddangos nifer y mathau o fusnesau bwyd yng Ngwynedd**

| | **Nifer yr eiddo (Ar 01/04/22)** |
|---|---|
| Cynhyrchwyr Cynradd (Sefydliadau Bwyd) | 58 |
| Gwneuthurwyr a Phacwyr | 171 |
| Mewnforwyr ac Allforwyr | 2 |
| Dosbarthwyr a Chludwyr | 16 |
| Manwerthwyr | 390 |
| Bwytai, Caffis, Ffreuturiau, Arlwywyr | 679 |
| Gwestai, Tafarndai a Chlybiau | 413 |
| Siopau Prydau Parod | 148 |
| Eiddo Gofal | 163 |
| Archfarchnadoedd | 55 |
| Ysgolion / Colegau | 133 |
| Unedau Bwyd Symudol | 85 |
| **Cyfanswm** | **2313** |
| O'r rhain, nifer y sefydliadau cymeradwy | 33 |

Mae gan Wynedd nifer o wlâu pysgod cregyn wedi eu dosbarthu gan Lywodraeth Cymru ac yn destun gwaith rheolaethol ganom. Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am hel a chasglu samplau o bysgod cregyn a dŵr mor ger y gwlâu i i sicrhau eu bod yn cwrdd â gofynion iechyd  llym. Mae'r swyddogion sy'n ymgymryd ar gwaith wedi derbyn hyfforddiant arbenigol.

Yn yr un modd, mae swyddogion sy'n ymgymryd â gwaith rheolaeth mewn safleoedd potelu dŵr angen hyfforddiant arbenigol.

Mae oddeutu 330 o eiddo bwyd yn y Sir yn dymhorol. Mae'r mwyafrif ar agor ond yn ystod misoedd yr Haf. Bydd y busnesau hyn yn creu gofyn ychwanegol ar y gwasanaeth

oherwydd y cynnydd mewn archwiliadau rhaglenedig dros y cyfnod hwn. Misoedd yr Haf yw'r rhai prysuraf gan fo ceisiadau am wasanaeth fel arfer yn cynyddu yn sylweddol oherwydd y twf yn y boblogaeth leol drwy dwristiaeth.

Nid Cymraeg neu Saesneg ydyw iaith gyntaf oddeutu 40-50 o weithredwyr busnesau bwyd yng Ngwynedd. Gall hyn greu sialens i swyddogion wrth iddynt gwblhau ymyriadau yn y busnesau yn nhermau cyflwyno gwybodaeth a sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheolau cyfredol.

### 3.7 Polisi Gorfodaeth

Cymeradwywyd polisi gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd gan Bwyllgor (28 Hydref 2011). Gellir gweld y polisi gorfodaeth ar wefan y Cyngor ( www.gwynedd.llyw.cymru ). Bydd penderfyniadau gorfodaeth ynghylch diogelwch bwyd yn cael eu cofnodi a'u monitro i ddangos ein bod yn cadw at y polisi. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithdrefnau cynhwysfawr ar gael i sicrhau cysondeb.

## 4.0 Darparu'r Gwasanaeth

### 4.1 Ymyriadau mewn Eiddo Bwyd

Dan amgylchiadau 'arferol' bydd ymyriadau'r diogelwch bwyd mewn busnesau yn cael eu blaenoriaethu yn unol â'r categori risg sydd wedi ei ddynodi iddynt yn flaenorol. Dilynir y drefn a fanylir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) .

Caiff ymyriadau eu diffinio yn y cod fel gweithgareddau sydd wedi'i dylunio i fonitro, cefnogi a chynyddu cydymffurfiaeth â'r gyfraith. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, 'rheolaethau swyddogol' fel y diffinnir yn Erthygl 2 (1) Rheoliad (Argadwedig )(CE) 882/2004.

Mae ymyraethau rheoli bwyd swyddogol y gellir eu defnyddio yn cynnwys archwiliadau, archwiliadau rhannol, ymweliadau goruchwylio, ymweliadau gwirio, ymweliadau monitro ac ymweliadau samplu, lle bydd y gwaith dadansoddi/archwilio yn digwydd mewn labordy swyddogol. Pan fod amgylchiadau'n caniatáu, ac yn arbennig ar gyfer eiddo risg isel, gellir defnyddio ymyriadau eraill nad ydynt yn rheolaethau swyddogol. Mae'r rhain yn cynnwys addysg, cyngor, hyfforddiant a chasglu gwybodaeth.

Wrth benderfynu pa fath o ymyriadau a ddylid ei defnyddio, rhaid rhoi ystyriaeth i ofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) . Mae'r cod yn manylu pha mor aml y dylid cynnal ymyriadau ar gyfer categorïau penodol o eiddo, a’r math o ymyraethau allai fod yn briodol, fel a ganlyn:

**Isafswm amylder ymyraethau hylendid bwyd.**

| | RHEOLAETHAU SWYDDOGOL | | | | | | | YMYRIADAU ERAILL | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Risg** | **Archwiliad** | **Archwiliad Rhannol** | **Archwiliadau-‘audit’** | **Monitro** | **Goruchwyliaeth** | **Gwirio** | **Samplu** | **Addysg, Cyngor a Hyfforddiant** | **Gwybodaeth, Casglu Gwybodaeth a Samplu** | **Amlder Gofynnol yr Ymyrraeth** |
| A[1] | X | X | X | | | | | | | 6 mis |
| B[1] | X | X | X | | | | | | | 12 mis |
| C[1] | X | X | X | | | | | | | 18 mis |
| C: ‘Cydymffurfio’n Fras’[2] | X | X | X | X | X | X | X | | | 18 mis |
| D | X | X | X | X | X | X | X | X | X | 24 mis |
| E | Strategaeth Orfodaeth Amgen Bob Tair Blynedd | | | | | | | | | |

1-Ar gyfer safonau Bwyd, yr isafswm sy’n dderbyniol ran cyfnod rhwng ymyraethau mewn eiddo categori A ydy 12 mis, categori B 24 mis ac ar gyfer eiddo categori C, rhaid cynnal ymyrraeth neu ymyrraeth sy’n rhan o strategaeth gorfodaeth amgen bob 5 mlynedd.
2-Eiddo sy’n gallu dangos, ac sydd wedi’u hasesu i ddangos bod ganddynt amodau, systemau a rheolaeth dda sy’n sgorio </= 10 yn y system raddio (h.y. eiddo da).

Oherwydd effaith sylweddol y pan demig cofid 19 ar allu llywodraethau lleol i gynnal rheolaethau bwyd bu i’r ASB gynllunio a chyflwyno cynllun adfer. Mae’r cynllun yn darparu fframwaith ar gyfer ail ddechrau system rheolaeth bwyd yn unol ar Còd Ymarfer Bwyd.

Yn bresennol rydym yn rhan dau o’r cynllun. Ceir crynodeb o’r targedau isod:

| **Dyddiad Targed** | **Gwaith i’w Gwblhau** |
|---|---|
| 30ain o Fehefin 2022 | Bob un sefydliad yng nghategori risg B ar gyfer hylendid ac A ar gyfer safonau i dderbyn ymyrraeth lle fo swyddog yn mynychu’r eiddo. |
| 30ain o Fedi 2022 | Bob sefydliad yng nghategori risg C ar gyfer hylendid a ddim yn cydymffurfio yn gyffredinol i dderbyn ymyrraeth lle fo swyddog yn mynychu’r safle. |
| 31 o Ragfyr 2022 | Pob sefydliad yng nghategori risg D hylendid a ddim yn cydymffurfio’n gyffredinol gyda gofynion i dderbyn ymyrraeth drwy |

| | |
|---|---|
| | swyddog yn mynychu'r eiddo. |
| 31 o Fawrth 2023 | Pob sefydliad categori risg C hylendid ac yn cydymffurfio yn gyffredinol gyda gofynion (neu well) i dderbyn ymyrraeth drwy swyddog yn mynychu'r eiddo. . |

Yn ogystal ar hyn a fanylir yn y tabl, mae'r cynllun yn mynnu fod;
-Gwaith monitro , gorfodaeth a gwaith ymatebol i barhau
-Eiddo yn parhau i gael sgôr hylendid bwyd newydd /diwygiedig yn dilyn ymyraethau priodol.
-Archwiliadau ail sgorio hylendid bwyd i'w cynnal yn unol ar canllawiau.
-Samplu yn cael ei gwblhau yn unol â chynllun samplu'r Awdurdod.
Archwiliadau yn cael eu cynnal mewn busnesau newydd.
-Trefn ymyraethau yn seiliedig ar wybodaeth yn cael ei sefydlu ai gynnal ar gyfer sefydliadau categori risg is.
-Ymyraethau sy'n cefnogi sectorau sbesiffig, masnachu ac allforio i barhau.

### 4.2 Ymyriadau Hylendid Mewn Cynhyrchwyr Cynradd

Dylid fo rhaglen ymyraethau mewn cynhyrchwyr cynradd yn seiliedig ar risg fel y manylir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).

Lle sefydlir fod busnes yn gyffredinol yn cwrdd â deddfwriaeth bwyd a lle fo'r categori risg yn adlewyrchu hynny, gellir defnyddio dull rheolaeth swyddogol amgen fel ymyrraeth yn hytrach nag archwiliad.

Bydd unrhyw ymyrraeth i sefydlu fo'r gweithredwr busnes bwyd ac unrhyw weithwyr gyda dealltwriaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig ar busnes gyda mesurau yn eu lle i reoli'r peryglon a sicrhau fod bwyd sy'n cael ei gyfeirio at y gadwyn fwyd yn saff i'w fwyta.

### 4.3 Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol

Mae'r Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 yn gofyn i awdurdodau lleol weithredu cynllun sgorio hylendid bwyd gan sgorio busnesau bwyd o fewn eu hardal. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn lleoliad eu busnes.Bwriad y Ddeddf yw sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn gwybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i wneud penderfyniadau deallus o ran ble i brynu bwyd.

Mae sgorau busnesau bwyd i'w gweld ar wefan yr ASB [Chwilio am sgoriau | Asiantaeth Safonau Bwyd (food.gov.uk)]

Mae canllawiau Sgorio Hylendid Bwyd ar gyfer Llywodraethau Lleol yn datgan na ellir dyfarnu sgôr hylendid bwyd ond wedi archwilio eiddo.

## 4.4 Rhaglen ymyrraeth hylendid bwyd Cyngor Gwynedd 2022-23

Ar gyfer 2022-23 bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal archwiliadau o fusnesau bwyd yn unol â chynllun adfer yr ASB, fel y nodir yn rhan 4.1

Byddwn yn targedu'r canlynol ar gyfer archwiliad:

Eiddo risg uchel / ddim yn cydymffurfio a gofynion
Busnesau Newydd
Sefydliadau wedi eu cymeradwyo a busnesau sy’n allforio.
Rhwng Ebrill a Medi 2022, eiddo tymhorol categori risg C a D gydag eiddo categori risg C eraill ac yna categori risg D i ddilyn.

Yn unol ar  Cynllun Adfer amcangyfrifir y byddai’r nifer canlynol o ymyraethau angen eu cyflawni yn ystod 2022-23:

| Proffil yr Eiddo | Nifer yr Eiddo (31/3/22) | Amcangyfrif o nifer yr ymyraethau fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn fel y cyfrifwyd ar 31/3/22 |
|---|---|---|
| Categori A | 2 | 2 |
| Categori B | 33 | 1 |
| Categori C | 730 | 628 |
| Categori D | 591 | 581 |
| Heb eu graddio | 117 | 117 |
| Tu allan i’r rhaglen | 10 | 10 |
| **CYFANSWM** | **1473** | **1339** |

Ni fydd ymyraethau yn cael eu cynnal mewn eiddo categori risg E yn ystod y flwyddyn  oni dderbynnir cwyn neu bryder dilys am safon hylendid eiddo penodol.

## 4.5 Rhaglen ymyrraeth safonau bwyd Cyngor Gwynedd 2022-23

Ar gyfer 2022-23 bydd bob eiddo risg uchel  categori A ddylid fo’n derbyn archwiliad neu sy’n hwyr yn derbyn archwiliad yn derbyn ymyrraeth.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd mae swyddogion sydd yn cynnal ymyraethau hylendid bwyd yn cynnal ymyraethau (archwiliad) safonau bwyd yr un pryd os ydy’r eiddo angen neu

am fod angen archwiliad yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae’n bolisi’r Awdurdod felly i sefydlu'r rhaglen ymyraethau safonau mewn eiddo risg categori B a C yn seiliedig ar gynllun adfer yr ASB mewn perthynas ag ymyraethau hylendid bwyd.

Mae’r tabl a ganlyn yn dangos pa archwiliadau safonau bwyd sydd angen eu cynnal yn 2022/23.

| Proffil yr Eiddo: Safonau Bwyd (Categorïau Risg A-C) | Amcangyfrif o Nifer yr Eiddo (ar 31/03/22) | Amcangyfrif o nifer yr archwiliadau fydd eu hangen yn ystod y flwyddyn fel yr adroddwyd ar y 31/3/22 |
|---|---|---|
| Categori A | 8 | 4 |
| Categori B | 606 | 538 |
| Categori C | 1568 | 365 |
| Tu allan i’r rhaglen | 3 | 0 |
| Heb eu graddio | 138 | 138 |
| **CYFANSWM** | **2313** | **1045** |

### 4.6 Ymyrraeth Hylendid Bwyd (Cynhyrchiant cynradd) 2022-23

Dylid fo ymyrraeth mewn busnes sydd yn ymwneud a chynhyrchu bwyd ar lefel cynradd yn cael ei flaenoriaethu yn unol â’r categori risg sydd wedi ei ddynodi iddynt yn flaenorol.

Gall ffactorau megis aelodaeth o gynllun cydnabyddedig a gwybodaeth leol gael dylanwad ar natur ac amlder ymyriadau.

Bydd archwiliadau cynhyrchwyr cynradd yn gyffredinol yn cael eu gwneud ar y cyd gydag archwiliadau bwyd anifeiliaid sydd yn cael eu rhaglennu yn unol ar cynllun gweithredu blaenoriaethol a gyflwynir yn flynyddol i Lywodraeth Cymru gan gynghorau. Yng ngogledd Cymru mae’r Cynghorau yn darparu cynllun bwyd anifeiliaid ar y cyd.

Rydym yn cydnabod  mae dim ond canran isel o gynhyrchwyr cynradd fydd yn derbyn archwiliad hylendid bwyd yn flynyddol drwy ddilyn y drefn yma. Ar ddiwedd 2021-22 roedd dros 1500 o archwiliadau hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd yn hwyr / heb eu cyflawni.

Mae 624 o'r cynhyrchwyr cynradd cofrestredig yn aelodau o gynllun sicrwydd: Cynllun Sicrwydd Cig Prydeinig, Cynllun Sicrwydd Cnydau Cynaeafu, Cynllun Sicrhau Da Byw Cymreig neu’r Cynllun tractor coch.

## 4.7 Ail Ymweliadau Gorfodaeth

Mae disgwyliad y bydd unrhyw eiddo sydd yn derbyn sgôr hylendid bwyd o ddau neu is yn derbyn ail ymweliad gorfodaeth oherwydd ystyrir bod busnes sydd wedi derbyn sgôr isel wedi torri'r gyfraith.

Sefydlir dyddiad yr ail ymweliad ar y camau a gymerwyd wedi'r ymyrraeth wreiddiol a natur y gwaith sy'n ofynnol i'r busnes ei gwblhau i sicrhau cydymffurfiaeth a'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, disgwylir cynnal ail-ymweliad ag eiddo gyda sgôr hylendid o 0 o fewn 28 diwrnod. Ble bo pryder mawr ynglŷn â glanweithdra'r eiddo, bydd yn briodol i'r cyfnod fod yn fyrrach. Dylid ail ymweld ag eiddo gyda sgôr hylendid o 1 neu 2 o fewn cyfnod o dri mis, yn ddibynnol ar y camweithredu a ganfuwyd yn ystod yr ymyrraeth gyntaf. Dylai ail ymweliad o'r fath gael ei gynnal gan y swyddog a gynhaliodd yr archwiliad gwreiddiol.

Mae hefyd disgwyliad, lle fo tor cyfraith safonau bwyd difrifol yn cael ei adnabod, y bydd ail ymweliad ar eiddo. Bydd y cyfnod rhwng yr ymweliad cyntaf ar ail ymweliad yn ddibynnol ar y risgiau sy'n gysylltiedig ar dor cyfraith ond dylid ei gynnal oddi fewn 3 mis.

Mae'r tabl isod yn manylu faint o ail ymweliadau hylendid a safonau gafodd eu cwblhau gan swyddogion dros y tair blynedd a nodir.

Ail ymweliadau

| Blwyddyn | Hylendid Bwyd | Safonau Bwyd |
|---|---|---|
| 2017-18 | 86 | 3 |
| 2018-19 | 82 | 7 |
| 2021-22 (*) | 3 | 4 |

(*)Dim adroddiad ar gyfer blynyddoedd 2019-20 a 2020-21

## 4.8 Ail Ymweliad Yn Dilyn Cais Am Ail Sgorio'r Sgôr Hylendid Bwyd

Ymgymerir ag ymweliad ail sgorio hylendid bwyd pan fo Gweithredwr y Busnes Bwyd wedi cymryd camau i unioni'r diffyg cydymffurfiaeth a nodwyd yn ystod yr archwiliad gwreiddiol a phan mae'r gweithredwr yn gwneud cais i'r awdurdod i ail asesu ei sgôr hylendid bwyd.

Dylid amseru ymweliad ail-sgorio'r eiddo o fewn gofynion y cynllun. Ble bo'n ymarferol, dylai ymweliad o'r fath gael ei gynnal gan y swyddog a gynhaliodd yr ymyrraeth wreiddiol. Cynhaliwyd 24 ymweliad ail sgorio cyn y pan demig, yn ystod 2018/19. Cafodd 3 ymweliad ail sgorio eu cynnal yn ystod 2021/22.

## 4.9 Cwynion am fwyd

Bydd pob cwyn am fwyd a brynir o fewn y sir ac nad yw'n gŵyn ddienw yn cael eu hymchwilio. Polisi'r gwasanaeth yw rhoi ymateb cyntaf o fewn pum diwrnod gwaith i bob cwyn am fwyd a chŵyn am eiddo bwyd.

Fe fydd cwynion (sydd ddim yn ddienw) a dderbynnir am faterion safonau bwyd a hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd yn derbyn ymateb oddi fewn 5 diwrnod gwaith

Mae'r tabl isod yn manylu'r nifer o gwynion diogelwch bwyd a dderbyniwyd dros y tair blynedd cyn y pan demig (2016-17 i 2018-19) ar flwyddyn ariannol ddiwethaf (2021-22)

<u>Cwynion Diogelwch Bwyd</u>

| **Blwyddyn** | **Hylendid Eiddo** | **Hylendid Bwyd (Microbau, eitemau estron, llygredd cemegol)** | **Safonau Bwyd (Cyfansoddiad, Ychwanegion)** |
|---|---|---|---|
| 16-17 | 95 | 41 | 14 |
| 17-18 | 74 | 31 | 14 |
| 18-19 | 56 | 93 | 21 |
| 21-22 | 82 | 13 | 10 |

Derbyniwyd un gwyn yn yn ystod 2021-22 yn ymwneud a safonau hylendid mewn cynhyrchwyr cynradd. Yn dilyn ymchwiliad fe fu i rybudd hylendid bwyd gael ei gyflwyno ar y gweithredwr busnes bwyd.

Nid yw'r amrywiad mewn nifer dros y blynyddoedd a nodir, ohono'i hun , yn creu problem ran dyfarniad adnoddau. Mae hyn hefyd yn wir o'r nifer o geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd, gweler y tabl isod.

<u>Cais am Wasanaeth</u>

| **Blwyddyn** | **Hylendid a Safonau Bwyd** | **O'r rhain, y nifer oedd yn geisiadau am gyngor.** |
|---|---|---|
| 16-17 | 1257 | 118 |
| 17-18 | 1061 | 95 |
| 18-19 | 1083 | 653(*) |
| 21-22 | 1346 | 497 |

(*) Newid yn y drefn cofnodi

Yn ystod y flwyddyn fe fu i 62% o geisiadau am wasanaeth oedd yn ymwneud a diogelwch

bwyd gael eu cau oddi fewn i 21 diwrnod o'u derbyn. Mae hyn yn awgrymu fod peth oediad mewn delio gyda rhai ceisiadau. Gall unrhyw oediad fod yn ganlyniad i'r ffaith fod mwyafrif o'r swyddogion wedi bod yn canolbwyntio ar waith cofid-19 dros y flwyddyn; nid oedd adnodd digonol i ddelio gyda rhai ceisiadau yn brydlon. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau gwelliant yn y perfformiad yma yn ystod 2022-23.

### 4.10 Awdurdodau Cynradd /Awdurdodau Cartref a Chyngor i Fusnesau

Sefydlwyd Cynllun Awdurdod Cynradd fel cynllun statudol gan y Ddeddf Gorfodaeth Rheolaeth a Chosb 2008. Drwy ddilyn y cynllun gall busnesau ddewis sefydlu partneriaeth gyda llywodraeth leol fydd yn dynodi'r modd y bydd y busnes yn derbyn rheolaeth gan unrhyw awdurdod lleol. Y Swyddfa Darpariaeth Rheolaeth sy'n cynnal y cynllun.

Gall Awdurdod Cynradd gynnig pwynt cyswllt dechreuol i lywodraethau lleol eraill ar gyfer busnes penodol. Gall yr Awdurdod Cynradd hefyd gynnig arweiniad ar faterion rheolaethol sy'n ymwneud ar busnes .

Nid oes gan Gyngor Gwynedd gytundeb Awdurdod Cynradd . Mae swyddogion wedi eu hymrwymo i ddilyn gofynion cytundebau Awdurdodau Cynradd sydd yn bodoli ar gyfer busnesau yn yr ardal.

Mae'r egwyddor Awdurdod Cartref yn cynnig trefn o gymorth i fusnesau drwy sefydlu pwynt cyswllt oddi fewn llywodraeth leol ar gyfer busnes sydd a prif swyddfa neu fwyafrif o'u gweithgareddau wedi eu lleoli oddi fewn yr ardal.

Rydym yn dilyn egwyddorion y cynllun lle derbynnir cyswllt gan gynghorau lleol eraill yn ymwneud a busnesau wedi eu lleoli yng Ngwynedd.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cyngor i unrhyw fusnes sydd ag eiddo masnachu yng Ngwynedd oni bai bod y masnachwr â threfniant Awdurdod Cynradd gydag awdurdod lleol arall. Cyflawnir hyn drwy ddarparu cyngor yn uniongyrchol i fusnesau a thrwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant a ellir eu cynnal yn lleol.

### 4.11 Samplu Bwyd ac Archwiliadau

Cyn y pan demig roedd bwyd a diod a gyflenwir, a gynhyrchir ac a werthir o fewn y Sir yn destun rhaglen samplu, er mwyn asesu diogelwch ac ansawdd y bwyd, a ble bo angen mewn ymateb i gwynion am fwyd/ archwiliadau bwyd. Yn ystod 2021-22 ni fu i'r Gwasanaeth gynnal rhaglen samplu ond byddwn yn edrych i ailgydio yn y gwaith yma yn ystod 2022-23.

I'r perwyl yma mae hyfforddai swyddog gorfodaeth yn derbyn hyfforddiant samplu fel y medrwn ail ddechrau ein rhaglen samplo 'basged siopa' a chymryd rhan mewn unrhyw ymgyrch samplo gaiff ei adnabod sydd angen yn ystod y flwyddyn.

Bydd canlyniadau analeiddio samplau yn cael eu cyfeirio at ASB drwy eu cofnodi ar y system UKFSS Net.

Yn ystod 2021-22 cymerwyd 3 sampl hylendid bwyd fel rhan o ymchwil i gwynion bwyd. Ni gymerwyd samplau safonau bwyd yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o ymgyrch samplu cenedlaethol fe gymerodd yr ASB 8 sampl bwyd o eiddo yng Ngwynedd yn ystod y flwyddyn a'u profi am bresenoldeb alergau roedd y busnes yn honni nad oedd yn bresennol yn y cynnyrch. Cafwyd un sampl gyda chynhwysyn na ddylid fod wedi bod yn bresennol. Ymwelodd swyddog gyda'r busnes a rhoddwyd cyngor iddynt.

Rydym yn cynnal rhaglen samplu pysgod cregyn a dŵr mor mewn ardaloedd lle bydd cregyn bysgod yn cael eu cynaeafu er mwyn monitro statws hylendid yr ardaloedd hynny. Defnyddir y data a geir o'r samplu i gynnal statws dosbarthiad yr ardaloedd cynaeafu cregyn bysgod.

Ar ddau safle cymerir samplau (pysgod cregyn yn bennaf) yn chwarterol a bob mis mewn 6 safle arall. Bydd dau o'r chwe safle hynny yn cael ei samplo ddwywaith y mis rhwng Ebrill a Medi. Parhaodd y rhaglen samplu yma yn ystod cyfnod y pan demig.

Wedi dadansoddi rhai o'r samplau pysgod cregyn cafwyd fod rhai wedi methu cwrdd â safonau lefelau bacteria yng ngwely 'Dwyrain Menai'. Canlyniad hyn oedd y bu rhaid ail edrych ar ddosbarthiad y gwely gyda'r dosbarthiad categori A yn cael ei gyfyngu i gyfnod penodol: o'r cyntaf o Orffennaf i 30ain o Ebrill mewn unrhyw flwyddyn. Yn ystod unrhyw gyfnod arall dosbarthiad y gwely fydd B sy'n golygu y bydd angen triniaeth ar y pysgod cregyn a gesglir yno yn ystod y cyfnod hynny cyn y medrant gael eu bwyta.

Dadansoddir mwyafrif y samplau bwyd gan yr Adran Ficrobioleg, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Ar adegau defnyddir y Dadansoddwr Cyhoeddus (Gwasanaeth dadansoddi cyhoeddus gwyddonol) yn Wolverhampton ac weithiau defnyddir labordai'r Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth (CEFAS).

### 4.12 Ymchwiliadau i Achosion o Salwch ac Afiechydon Heintus yn gysylltiedig â Bwyd

Bydd y gwasanaeth yn ymchwilio i bob achos o salwch yn deillio o hysbysiadau afiechydon yn gysylltiedig â bwyd yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig a chyngor gan ein Swyddog Priodol.

Mae trefniadau ffurfiol wedi'u sefydlu rhwng yr ICC a Chyngor Gwynedd er mwyn adnabod achosion o wenwyn bwyd ac ymchwilio iddynt. Cyfeirir yr holl achosion o wenwyn bwyd sydd wedi'u hadnabod yn y labordy yn uniongyrchol inni er mwyn cynnal ymchwiliad.

Fel yr eglurwyd eisoes ar ddechrau'r pan demig cofid ym Mhrydain (Ddiwedd Mawrth 2020 ) cafodd pob swyddog o'r gwasanaeth eu dargyfeirio o'u dyletswyddau arferol i gwblhau gwaith atal lledaeniad cofid. Roedd mwyafrif o adnodd staff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith cofid hyd Fis Medi 2021  lle fu i gyfran o swyddogion ddychwelyd, yn raddol, i gwblhau gwaith diogelwch bwyd a dyletswyddau eraill.

Ond, yn ystod cyfnod y pan demig parhaodd swyddogion i ymchwilio  i bob achos o wenwyn bwyd neu achosion honedig o wenwyn bwyd gyda golwg ar ddarganfod y ffynhonnell a rhwystro'r afiechyd rhag lledaenu.

Yn ystod 2021-22  derbyniwyd 32 cais am wasanaeth yn ymwneud a salwch bwyd oedd yn hysbysebion heb eu cadarnhau gan aelodau o'r cyhoedd neu asiantaethau eraill.

Mae'r tabl isod  yn arddangos y nifer o hysbysiadau *cadarnhaol* unigol dderbyniwyd o afiechydon heintus yn gysylltiedig â bwyd (a heb fod yn gysylltiedig â'i gilydd)  gan yr ICC dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

| **Bacteria / organeb yn gyfrifol am yr afiechyd** | **Cyfanswm hysbysiadau 20-21** | **Cyfanswm Hysbysiadau 21-22** |
|---|---|---|
| Campylobacter | 179 | 201 |
| Salmonella Typhimurium | 0 | 0 |
| Salmonella Enteritidis | 8 | 8 |
| Salmonellas eraill | 1 | 2 |
| Giardia Lamblia | 7 | 9 |
| Cryptosporidium | 11 | 20 |
| E.Coli ferotocsin yn cynnwys 0157 | 19 | 34 |
| Listeria Monocytogenes | 1 | 0 |
| Shigellosis | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **226** | **274** |

Roedd disgwyliad  y byddai mabwysiadu trefn prawf molecwlar gan labordai Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer adnabod pathogenau enterig wedi cael effaith ar y Gwasanaeth o 2018-19 ymlaen, gan fod y prawf yn un fwy sensitif na'r un blaenorol.

Nid ydym wedi nodi cynnydd sylweddol yn y nifer o achosion a adroddir. Wedi dweud hyn, gall effaith cyfyngiadau'r pan demig ar ymddygiadau pobl / mynediad at gyfleusterau meddygol fod wedi cael ardrawiad ar y nifer o bobl oedd yn cyflwyno gyda salwch bwyd ac felly nid yw'n briodol i asesu unrhyw dueddiadau yn y ffigyrau diweddaraf ar y foment.

Yn ystod diwedd 2021-22 bu i'r gwasanaeth gynorthwyo ymchwiliad cenedlaethol gan yr ICC i achosion cysylltiedig bosib o salwch yn deillio o Salmonela Typhimurium t5 4574. Mae'r ymchwiliad yma yn parhau.

## 4.13 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

O bryd i'w gilydd, bydd yr ASB yn datgan digwyddiad diogelwch bwyd a byddant yn hysbysu'r awdurdodau bwyd am y rhain yn electronig drwy e-bost. Mae rhai o'r hysbysiadau er gwybodaeth yn unig ac mae rhai yn gwarantu ymdrech i ddelio a hwy.

Mae gan y Gwasanaeth weithdrefn wedi'i ddogfennu ar sut i ymdrin â Rhybuddion Digwyddiadau Diogelwch Bwyd wedi iddynt gael eu hysbysu drwy'r system Rhybuddion Bwyd.

Ni fu i'r gwasanaeth dderbyn hysbysiad digwyddiad bwyd yn ystod 2021/22 oedd angen i swyddogion weithredu i ddelio ag o .

## 4.14 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

Mae'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch yn cydweithio gyda'r grwpiau a sefydliadau cyswllt isod. Gwneir hyn i sicrhau bod y gwasanaeth neu unrhyw gamau gorfodaeth a gymerir yng Ngwynedd yn gyson gydag awdurdodau lleol cyfagos. Yn ogystal, drwy gydweithio gellir adnabod gwelliannau i'r gwasanaeth a sefydlu pa hyfforddiant sydd angen / fwyaf addas ar gyfer cyfrannu at gymwysterau swyddogion.

- Llywodraeth Cymru
- Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru (DPPW)
- Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru (WHoEH)
- Grŵp Penaethiaid Safonau Masnach (WhoTS)
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd ac Afiechydon Heintus Gogledd Cymru (PDBGC)
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymreig
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (ICC)
- Grŵp Cyswllt Pysgod Cregyn Gogledd Cymru a Glannau Dyfrdwy (PCCGD)
- Awdurdod Trwyddedu Gang Feistri

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Canolfan ar gyfer yr Amgylchedd, Pysgodfeydd, a Gwyddoniaeth Dyframaeth
- Dŵr Cymru (DC)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)
- Uned Twyll Bwyd Cenedlaethol (UTBC)

## 4.15 Hyrwyddo Diogelwch Bwyd

Bydd y Gwasanaeth yn ymgymryd ag ymarferion hyrwyddo iechyd, yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael.

Er bod gwaith hyrwyddo diogelwch bwyd wedi ei gyfyngu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf fe fu i'r Gwasanaeth gynorthwyo'r ASB drwy roi cyhoeddusrwydd i'w mentrau ar ein safleoedd gwe cymdeithasol. Rhoddwyd sylw i;

Gofynion labelu newydd ar gyfer bwyd wedi ei becynnu cyn ei werthu'n uniongyrchol i gwsmer yn ystod Haf 2021.

Ymgyrch Cofrestru Busnes Bwyd yn Fis Chwefror 2022

Ymgyrch 'Siaradwch am Alergau' Mawrth 2022

Yn ystod Mis Mai 2022 fe yrrodd y Gwasanaeth lythyr ynghyd a thaflenni gwybodaeth am ofynion labelu bwyd wedi ei becynnu flaenllaw i'w werthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid at 547 o fusnesau.

Yn ogystal, yn ystod Mis Tachwedd 2022 bu inni gyhoeddi cyngor i'r cyhoedd ar ein gwefannau cymdeithasol i wirio sgôr hylendid bwyd busnesau sy'n gweithredu ar y we cyn gwneud archeb.

## 4.16 Hyfforddiant Diogelwch Bwyd i Swyddogion

Mae'n bolisi gan y Cyngor i gydymffurfio'n llawn â gofynion Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) ran hyfforddiant staff a chymwysterau swyddogion awdurdodedig. Mae hyn yn cynnwys mynediad i hyfforddiant allanol ar destunau arbenigol gyda hyfforddiant ategol rheolaidd a hyfforddiant mewnol.

Dylid fod swyddogion sy'n gyfrifol am orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd yn derbyn o leiaf 10 awr o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod blwyddyn.
Dylid fo swyddogion sy'n ymwneud ag ymweliadau hylendid mewn eiddo cynhyrchu cynradd dderbyn 4 awr o hyfforddiant perthnasol mewn blwyddyn.

Cafodd anghenion hyfforddiant swyddogion eu cwrdd drwy ddefnydd ffynonellau hyfforddiant ar y we yn ystod 2021- 22.

Nid yw tri swyddog yn bresennol gydag awdurdodiad llawn i ymgymryd â gwaith rheolaeth diogelwch bwyd. Bydd angen i'r unigolion hyn ddilyn a chwblhau trefniant fframwaith cymhwysedd yr ASB.

## 4.17 Camau Ffurfiol Diogelwch Bwyd

Rhaid bod unrhyw waith gorfodaeth gydymffurfio gyda Pholisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd.Gall gwaith gorfodaeth amrywio o gymryd camau anffurfiol hyd at gyflwyno hysbysiadau gwella hylendid bwyd ffurfiol, hysbysiadau camau adferol, hysbysiadau hylendid gwahardd brys neu erlyn.Y prif amcan yw sicrhau bod yr holl fusnesau bwyd yng Ngwynedd yn cynhyrchu bwyd sy'n ddiogel i'w fwyta a'u bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelwch bwyd.

Mae'r tabl isod yn manylu faint o rybuddion ysgrifenedig a rhybuddion statudol a gafodd eu cyhoeddi gan y gwasanaeth yn ystod 2017-18, 2018-19 a 2021-22 ar nifer o erlyniadau gafodd eu cwblhau dros yr un cyfnodau.

| **Blwyddyn** | **2017/18** | **2018/19** | **2021/22** |
|---|---|---|---|
| Cau eiddo bwyd yn wirfoddol | 2 | 8 | 2 |
| Ataliad, dal neu ildiad gwirfoddol o fwyd | 4 | 1 | 0 |
| Rhybudd Gwella Hylendid Bwyd | 8 | 14 | 2 |
| Rhybudd Gweithrediad Adfer | 6 | 7 | 0 |
| Rhybudd Gwella Safonau Bwyd | 2 | 0 | 2 |
| Rhybudd Ysgrifenedig Hylendid Bwyd | 974 | 867 | 251 |
| Rhybudd Ysgrifenedig Safonau Bwyd | 405 | 428 | 153 |
| Erlyniad Hylendid Bwyd | 0 | 0 | 0 |
| Erlyniad Safonau Bwyd | 0 | 0 | 0 |

## 4.18 Bwyd Mwy Diogel Gwell Busnes - (SFBB)

Er mwyn  cynorthwyo perchnogion busnesau bwyd fodloni'r gofynion cyfreithiol, mae'r ASB wedi cynhyrchu system rheoli diogelwch bwyd symlach, sef SFBB y medrant ei ddefnyddio . Awgrymir ganddynt y dylai SFBB gael ei hyrwyddo ymysg busnesau bwyd sydd angen help gyda gofynion dadansoddi peryglon a chofnodi trefniadau diogelwch bwyd.

Yn 2022-23, byddwn yn parhau i hyrwyddo defnyddio'r model rheoli diogelwch bwyd hwn (ble fo'n berthnasol)

## 4.19 Busnesau Newydd

Mae pob busnes bwyd newydd yng Ngwynedd yn destun ymweliad ymyrraeth a rhoddir cyngor ac arweiniad i sicrhau fod y busnesau hyn yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd o'r cychwyn cyntaf.

Yn ystod 2021-22 ni fu i fwyafrif o fusnesau newydd dderbyn ymweliad oddi fewn y targed o 28 diwrnod o agor / ddechrau masnachu. Ar gyfer y flwyddyn nesaf un o flaenoriaethau'r gwasanaeth fydd archwilio'r busnesau newydd sydd wedi cofrestru yn barod ac i gynnal archwiliad o unrhyw fusnesau newydd sy'n cofrestru oddi fewn 28 diwrnod o ddechrau masnachu.

Mae nifer gymharol uchel o fusnesau bwyd yn agor yn flynyddol yn y Sir sy'n rhoi pwysau ychwanegol sylweddol ar y gwasanaeth. Mae'r tabl isod yn manylu'r nifer o fusnesau bwyd newydd sydd wedi cofrestru yn flynyddol gyda'r Cyngor ers 2019-20. Mae'r gostyngiad yn y niferoedd wnaeth gofrestru yn 2019-20 ac yn arbennig yn ystod 2020-21 yn ganlyniad o ardrawiad y cyfyngiadau cofid ar fusnesau bwyd.

| **Blwyddyn** | **Nifer o fusnesau bwyd newydd wedi cofrestru.** |
|---|---|
| 2019-20 | 199 |
| 2020-21 | 101 |
| 2021-22 | 245 |

I'r gwrthwyneb, mae hefyd nifer sylweddol o eiddo bwyd yn cau yn y Sir yn flynyddol. Dros 2021-22 fe fu i 150 eiddo bwyd gau.

## 5.0 Adnoddau

### 5.1 Dyraniad Ariannol

Mae'r tablau (x3) isod yn arddangos gwir gost (net) cwblhau gwaith diogelwch bwyd i Gyngor Gwynedd yn ystod y pedair blynedd ariannol diwethaf;2018/19 – 2021-22 (tabl 1-3).Mae bob tabl yn adrodd costau un elfen o waith diogelwch bwyd yn unig (hylendid bwyd, safonau bwyd a hylendid bwyd mewn cynhyrchwyr cynradd).

Mae'r siart pastai ddilynol yn arddangos yn weledol costau net bob elfen o'r gwaith diogelwch bwyd yn ystod 2021-22

Arddangosir costau ar gyfer gwahanol elfennau o'r uned a hefyd rhai o'r prif gyfraniadau at gost net bob elfen.(staff, pwrcasu , cyfraniad at wasanaethau eraill y Cyngor [Costau Canolog] ).Mae mwyafrif o'r costau trafeilio, pwrcasu a chostau canolog yn cael eu cynnwys dan gostau staff hefyd.

**Tabl 1: Cost Gwaith Hylendid Bwyd yn 2018/19-2021/22**

| Elfen Diogelwch Bwyd | Gwir Gost (Net) | Costau Staff | Trafeilio / Cynhaliaeth(*) | Pwrcasu: Offer, dadansoddi samplau, gwasanaethau(*) | Gweinyddiaeth a 'costau canolog'.(*) |
|---|---|---|---|---|---|
| Hylendid Bwyd 2018/19 | £393,001 | £383,553 | £2608 | £7664 | £23, 571 |
| Hylendid Bwyd 2019/20 | £430,300 | £405,239 | £1028 | £6412 | £29,141 |
| Hylendid Bwyd 2020/21 | £444,170 | £423,501 | £402 | £4917 | £21,202 |
| Hylendid Bwyd 2021/22 | £467,406 | £457,154 | £1312 | £7563 | £21,204 |

(*) Mwyafrif y costau yma yn cael eu cynnwys dan gostau staff (gweler yr ail golofn)

**Tabl 2: Cost Gwaith Safonau Bwyd yn 2018/19-21/22**


| Elfen Diogelwch Bwyd | Gwir Gost (Net) | Costau Staff | Trafeilio / Cynhaliaeth(*) | Pwrcasu: Offer, dadansoddi samplau, gwasanaethau.(*) | Gweinyddiaeth a 'costau canolog'.(*) |
|---|---|---|---|---|---|
| Safonau Bwyd 2018/19 | £207,188 | £186,059 | £519 | £5173 | £15,435 |
| Safonau Bwyd 2019/20 | £230,615 | £200,461 | £143 | £2684 | £28,709 |
| Safonau Bwyd 2020/21 | £227,908 | £206,989 | £0 | £1998 | £21,096 |
| Safonau Bwyd 2021/22 | £209,085 | £192,782 | £0 | £1251 | £21,011 |

(*) Mwyafrif y costau yma yn cael eu cynnwys dan gostau staff (gweler yr ail golofn)

**Tabl 3: Cost Gwaith Hylendid Bwyd Cynhyrchwyr Cynradd yn 2018/19 -21/22**

| Elfen Diogelwch Bwyd | Gwir Gost (Net) | Costau Staff | Trafeilio / Cynhaliaeth | Gweinyddiaeth a 'costau canolog'. |
|---|---|---|---|---|
| Hylendid Bwyd Cynhyrchwyr Cynradd 2018/19 | £31,716 | £8525 | £0 | £23,191 |
| Hylendid Bwyd Cynhyrchwyr Cynradd 2019/20 | £36,552 | £7460 | £380 | Dim cyfraniad |
| Hylendid Bwyd Cynhyrchwyr Cynradd 2020/21 | £32,643 | £10,947 | £0 | Dim cyfraniad |
| Hylendid Bwyd Cynhyrchwyr Cynradd 2021/22 | £33,134 | £12,122 | £0 | Dim cyfraniad |

<u>Costau net bob elfen o'r Gwasanaeth Diogelwch Bwyd  2021/22</u>




Rydym yn cyfrannu at wasanaethau eraill y Cyngor sydd yn cynorthwyo gyda darpariaeth y gwasanaeth, gan gynnwys ein huned gyfreithiol.

Mae cyfraniadau eraill yn effeithio ar y cyfanswm costau net y gwasanaeth. Er enghraifft, fe wnaeth y Gwasanaeth incwm hylendid bwyd o  £8536 ac incwm safonau bwyd o £1136 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cynyddodd cyfanswm cost net darpariaeth gwasanaethau diogelwch bwyd gan £4904 rhwng 2020/21 a 2021/22.

### 5.2 Lefelau Staff Presennol

Yn 2021/22 roedd 14 swyddog yn y Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch gyda chyfraniadau tuag at waith diogelwch bwyd ychwanegol gan 2 aelod o'r tîm safonau masnach (heb gynnwys rheolwyr a saff cynorthwyol).

Mae dau swyddog yn y broses o ennill cymwysterau a fydd, ynghlwm a  boddhau gofynion cymhwysedd, yn eu caniatáu i ymgymryd â gwaith rheoli diogelwch bwyd swyddogol. Roedd un swyddog arall sydd newydd gymhwyso ddim ar gael i'r gwasanaeth yn ystod 2021/22.  Ni fu i'r swyddogion hyn felly gwblhau gwaith diogelwch bwyd swyddogol dros y flwyddyn.

Mae hanner swydd swyddog gorfodaeth gwarchod y cyhoedd yn wag. Roedd un swyddog (cyfwerth a hanner swydd llawn amser swyddog gorfodaeth) yn parhau i ganolbwyntio ar waith cofid ddechrau 2022/23.

Yn bresennol nid oes gan y gwasanaeth swyddog samplo dynodedig.

Roedd swyddogion y gwasanaeth yn canolbwyntio ar waith atal lledaeniad cofid hyd Fis Medi 2021. Wedi hyn fe fu i rai ohonynt ddychwelyd yn raddol at waith diogelwch bwyd a chyfrifoldebau eraill dros Aeaf 2021-22.

Mae swyddogion oddi fewn y Gwasanaeth yn cyflawni gwaith dros ystod eang o gyfrifoldebau, yn unol â'u gall a'u hawdurdodiad.

Mae'r tablau nesaf yn manylu'r CLLA (Cyfwerth a Llawn Amser) oedd ar gael i'r Cyngor i gwblhau gwaith diogelwch bwyd cyn y pan demig (diwedd 2018/19) ac yna ar y 31/3/22

Hylendid Bwyd

| **Swydd** | **CLLA 18/19** | **CLLA 31/3/22** |
|---|---:|---:|
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | 4.15 | 3.9 |
| Swyddogion Diogelwch Bwyd/ Swyddogion Gorfodaeth | 3.1 | 2.4 |
| Swyddog Samplo | 0.4 | 0 |
| Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd a Cefnogol) | 0.5 | 0.5 |
| Cyfraniad gan swyddi eraill | 0.6 | 0.55 |
| **Cyfanswm** | **8.65** | **7.35** |

Safonau Bwyd

| Swydd | CLLA 18/19 | CLLA 31/3/22 |
|---|---|---|
| Swyddog Iechyd yr Amgylchedd / Swyddog Gwarchod y Cyhoedd | 4.5 | 1.9 |
| Swyddogion Diogelwch Bwyd/ Swyddogion Gorfodaeth | 1.5 | 1.1 |
| Rheolwyr Gwarchod y Cyhoedd | 0.5 | 0.45 |
| Cyfraniad gan swyddi eraill | 0.1 | 0.04 |
| **Cyfanswm** | **6.60** | **3.49** |

Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd

| Swydd | CLLA 17/18 | CLLA 31/3/22 |
|---|---|---|
| Swyddog Gorfodaeth | 0.1 | 0.1 |
| Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd | 0.05 | 0.05 |
| **Cyfanswm** | **0.15** | **0.15** |

Mae cyfran uchel o archwiliadau hylendid bwyd yn cael eu cyfuno gydag archwiliadau safonau bwyd. Mae swyddogion hefyd yn cwblhau gwaith iechyd a diogelwch.

I gydymffurfio'n llaw gyda gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) ystyrir fod angen o leiaf cyfwerth a 14 swyddog *gweithredol* (swyddogion gwarchod y cyhoedd a swyddogion gorfodaeth gwarchod y cyhoedd)  i weithio i'r gwasanaeth gyda o leiaf 7.75 CLLA wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith hylendid bwyd a 4,5 CLLA wedi ei neilltuo ar gyfer gwaith safonau bwyd

Mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo cynllun hyfforddai ar gyfer tri swyddog gwarchod y cyhoedd dros y tair blynedd nesaf, i'w penodi yn ystod 2022-23. Rhagwelir y bydd un o'r hyfforddai hyn yn rhan o'r Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch.

## 6.0 Sicrwydd Ansawdd

### 6.1 Gweithdrefnau

Bydd gweithgareddau gorfodaeth yn cael eu dogfennu a'u cadw yn electronig er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb ein prosesau, ein gweithdrefnau a'n cyfarwyddiadau gweithio. Mae'r gweithdrefnau yn nodi'r cyfrifoldeb am y gwaith a wneir. Gall staff dderbyn mynediad i'r dogfennau drwy gronfa ddata electroneg rhannog.

### 6.2 Asesiadau ac Archwiliadau

Bydd ansawdd ein polisïau a'n gweithdrefnau yn cael ei asesu mewn sawl ffordd, sef:

- Bydd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd yn monitro amrywiaeth o waith gorfodaeth yn rheolaidd (h.y. archwiliadau, llythyrau, hysbysiadau gwella, sgoriau, graddau risg) a bydd yn rhoi adborth i'r swyddogion. Yn ogystal cwblheir archwiliad mewnol o'r gweithdrefnau a'r cyfarwyddiadau gweithio fel fo'r angen / yn flynyddol.

- Archwiliadau a gwblheir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

- Archwiliadau mewnol

Mae trefniadau monitro eraill yn cynnwys:

- Ymgynghoriad ac adborth gan gwsmeriaid drwy arolygon bodlonrwydd cwsmer
- Ystyried cwynion a chanmoliaeth gorfforaethol ynghylch y gwasanaeth.
- Cyfarfodydd tîm rheolaidd i roi cyfle i swyddogion drafod materion archwilio a gorfodaeth a hyrwyddo cysondeb cyffredinol.
- Ymarferion cysondeb yn enwedig ar gyfer sefydlu graddau risg.
- Adolygiad gan gydweithwyr.

## 7.0 Adolygiad

### 7.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth

Yn arferol bydd y cynllun darparu gwasanaeth yn destun adolygiad blynyddol. Ystyrir yr adolygiad yn rhan o'n proses cynllunio busnes blynyddol.

Mae'r perfformiad yn cael ei fonitro yn rheolaidd gydag adolygiad rheolaethol bob deufis o'r cynnydd. Cwblheir adroddiadau sy'n manylu ar y perfformiad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol a lleol. Drwy ddilyn y broses yma medr materion allweddol sy'n codi gael eu hadnabod yn amserol fel fo modd mynd i'r afael â hwy.

### 7.2 Adolygu Perfformiad yn erbyn Cynllun Gwasanaeth 2019-20

Mae Atodiad 1, 2 a 3 yn cynnwys dadansoddiad o ddarpariaeth a pherfformiad y gwasanaeth yn ystod 2021-22.

Oherwydd y pan demig cofid ni fu i gynllun gwasanaeth gael ei gyhoeddi ers 2019/20 .Mae'r prif ardaloedd ar gyfer gwelliant / gweithrediad oedd wedi eu hadnabod yng nghynllun gwasanaeth 2019/20 wedi eu rhestru yn y tabl isod ynghyd ar hyn mae'r gwasanaeth wedi ei gyflawni ers hynny i gyfarch y gwelliannau adnabuwyd oedd angen.

Perfformiad – Rhaglen waith 2019/20

| **Ardal Allweddol** | **Camau Gweithredu / Canlyniadau** |
|---|---|
| Cwblhau'r gwelliannau adnabuwyd yn ystod archwiliad llawn o'r Uned gan yr ASB ym mis Chwefror 2016 yn ystod 2019-20 | Mae'r uned wedi cymryd camau sylweddol i gwrdd â'r holl argymhellion oedd dal heb eu cwblhau.<br><br>Mae mwyafrif o'r argymhellion hyn y ddibynnol ar sicrhau adnodd digonol i gwrdd â gofynion y cod bwyd.<br><br>Drwy benodi swyddogion ychwanegol fe fydd y Gwasanaeth yn cwrdd ar gofynion ymhen amser- nid yw'r swyddogion hyn wedi derbyn cymwysterau angenrheidiol eto fydd yn eu galluogi i weithredu fel swyddogion awdurdodedig. Dylid fod y sefyllfa yma yn cael ei ddatrys yn ystod 2022/23. |

| | |
|---|---|
| Cynnal archwiliadau swyddogol hylendid a safonau bwyd ymhob eiddo risg uchel sydd wedi eu rhaglennu am ymyrraeth . | Oherwydd effaith y pan demig cofid ni fu i'r Gwasanaeth, i bob pwrpas, gynnal rhaglen archwiliadau diogelwch bwyd am dros flwyddyn a hanner hyd Medi 2021.<br><br>Felly, mae ôl groniad sylweddol o archwiliadau bwyd (2000+)<br><br>Bydd yr Awdurdod yn dilyn cynllun adfer yr ASB a blaenoriaethu busnesau am ymyrraeth yn unol ar canllawiau / categorïau risg sydd wedi eu sefydlu.<br><br>Cafodd holl archwiliadau rhaglenedig risg uchel categori A hylendid a safonau eu cwblhau yn ystod y flwyddyn 2021-22 |
| Delio gyda'r ôl-groniad archwiliadau risg isel safonau a hylendid bwyd.. | Bydd yr Awdurdod yn dilyn cynllun adfer yr ASB ar gyfer delio gydag ôl groniad archwiliadau hylendid a safonau bwyd. |
| Parhau i gynnal arolygon boddhad cwsmer ar gyfer agweddau o waith y Gwasanaeth | Bydd yr arolygon yn ail ddechrau yn ystod 2022-23 yn dilyn cael eu hatal dros y pan demig. |
| Cynnal archwiliad o 90% o fusnesau bwyd newydd oddi fewn 28 diwrnod iddynt agor neu o'r dyddiad lle fydd y gwasanaeth yn ymwybodol eu bod yn masnachu. | Mi fu i'r Gwasanaeth fethu cwrdd ar targed oherwydd bod swyddogion wedi eu dargyfeirio i gwblhau gwaith cofid-19. Dylid fod hyn yn derbyn sylw dros y flwyddyn nesaf. |
| Parhau i hybu cynhyrchwyr cynradd i fabwysiadu ymarferion hylendid bwyd o safon | Parhau, ond ar raddfa fechan. |
| Monitro cydymffurfiaeth gyda'r gofyn i gyhoeddi gwybodaeth maeth ar gynhwysion bwyd wedi ei bacio flaenllaw. | Ymdrech cyfyngedig. Bydd y ffocws eleni ar sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion labelu bwyd wedi ei becynnu flaenllaw i gwsmeriaid. |
| Monitro a gorfodi'r gofyn i arddangos sgôr hylendid bwyd mewn busnesau bwyd ar draws y Sir. | Yn parhau. |
| Sicrhau fod digon o adnodd yn nhermau | Eto, yr ymdrech yma wedi ei gyfyngu |

| | |
|---|---|
| CLLA a chymwysterau i orfodi deddfwriaeth / cynnig cyngor mewn perthynas â meysydd arbenigol fel pysgod cregyn a safleoedd potelu dŵr ffynnon. | oherwydd effeithiau'r pan demig. I dderbyn sylw dros y flwyddyn nesaf. |
| Cymryd rhan ym mhrosiectau ar y cyd Panel Bwyd ac Afiechydon Heintus Gogledd Cymru | Dim prosiectau wedi ei adnabod hyd yma ond byddwn yn ymdrechu i gymryd rhan mewn unrhyw brosiect ar y cyd a adnabyddir gan y grŵp. |
| Targedu ymyraethau safonau bwyd , gan gynnwys archwiliadau a samplo mewn sectorau bwyd penodol dros y flwyddyn. I gynnwys cynhyrchwyr gwirodydd a chwrw a chynhyrchwyr cacennau gartref | Nid yw'r gwaith yma wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ar gyfer eleni felly bydd yn cael ei atal am y tro. |
| Taliadau am gyngor | Wedi ei atal dros gyfnod y pan demig. Edrych i ail ddechrau'r drefn os yw'r adnodd yn caniatáu yn ystod 22-23. |
| Prynu a mabwysiadu system gyfrifiadurol newydd ar gyfer cofnodi gwaith. | Wedi ei gyflawni. Gwasanaeth bellach yn defnyddio TASCOMI. |
| Addasu systemau a gweithdrefnau mewnol er mwyn delio gydag unrhyw effeithiau bosib y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ei gael ar y diwydiant bwyd. Gan ganolbwyntio ar faterion allforio a mewnforio; gall fod ymdrech ychwanegol i'r Awdurdod mewn perthynas â chyhoeddi tystysgrifau allforio ar gyfer bwyd a gynhyrchir yn y Sir gan gynnwys cynnyrch pysgod . | Yn parhau<br>Bydd pob swyddog yn eistedd cwrs ail ddilysu Swyddog Ardystio Cymwys Bwyd yn ystod misoedd cyntaf 2022/23. |

## 7.3 Llwyddiant

Er bod y gwasanaeth wedi ffocysu ar waith atal lledaeniad cofid am fwyafrif o'r flwyddyn ac yn ychwanegol i'r hyn a amlinellir yn Atodiad 1, 2 a 3, mae llwyddiannau allweddol y gwasanaeth dros gyfnod y cynllun y llynedd yn cynnwys:

- Yn ystod 2021-22 bu i'r Gwasanaeth barhau i gyflawni ymyraethau swyddogol lle mae'r natur ar amlder wedi ei nodi mewn rheoliadau sbesiffig a hefyd ymyraethau sydd wedi ei argymell gan yr ASB er mwyn cefnogi masnachu ac allforio, Er enghraifft, bu inni barhau i asesu ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer sefydliadau sy'n cynhyrchu bwyd o anifeiliaid.

- Cyflawni gwaith ymatebol gan gynnwys gwaith gorfodaeth i ddelio gydag achosion o dor cyfraith, rheoli digwyddiadau o berygl bwyd a chynnal ymchwil i gwynion bwyd.
- Cynnal rhaglen o fonitro rhagweithiol er mwyn cael syniad o'r sefyllfa yn y sector fusnes bwyd yng Ngwynedd, gan gynnwys adnabod busnesau heb gofrestru , busnesau wedi cau a busnesau wedi newid yn sylweddol heb roi gwybod inni.
- Yn unol â chynllun adfer yr ASB, llunio a gweithredu rhaglen ymyraethau i'w ddilyn wedi Medi 2021.
- Eto yn unol ar cynllun adfer, cwblhau archwiliadau o holl eiddo categori A hylendid bwyd erbyn 31/3/22.
- Cwblhau archwiliad o holl eiddo categori risg hylendid bwyd B heblaw am un cyn diwedd y flwyddyn. Y targed yn y cynllun adfer ydy 30ain o Fehefin 2022.
- Bu i'r Gwasanaeth gymryd rhan mewn ymgyrchoedd drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i ledaenu negeseuon. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth gwybodaeth i fusnesau yn ystod Gwanwyn a Haf 2021 mewn perthynas â gofynion labelu bwyd wedi ei becynnu i gwsmeriaid flaenllaw oedd yn weithredol o'r 1af o Hydref 2021.
- Ymdrechodd swyddogion i gwrdd â gofynion hyfforddiant drwy eistedd / mynychu cyrsiau ar lein.

## 7.4 Meysydd i'w Gwella 2022-23

Adnabuwyd yr ardaloedd canlynol ar gyfer ymdrech penodol yn 2022/23:

- Bydd yr Awdurdod yn ymdrechu i gwrdd ar targedau sydd wedi eu gosod yng nghynllun adfer yr ASB ar gyfer y flwyddyn - gweler rhan 4.1 am fwy o fanylion.
- Archwilio o leiaf 90% o fusnesau newydd oddi fewn i 28 diwrnod iddynt agor neu i ni fod yn ymwybodol ohonynt.
- Cwblhau rhaglen samplu bwyd gyda canlyniadau annerbyniol i dderbyn sylw prydlon.
- Monitro cydymffurfiaeth gyda gofynion labelu bwyd wedi ei becynnu flaenllaw ar gyfer gwerthiant uniongyrchol i gwsmeriaid.
- Cynnal ymdrech recriwtio i gyflogi 3 hyfforddai gwarchod y cyhoedd am gyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf.
- Lle fo'n bosib, sicrhau fod digon o adnodd yn nhermau CLLA a chymwysterau i orfodi deddfwriaeth / cynnig cyngor mewn perthynas â meysydd arbenigol diogelwch bwyd.
- Delio gyda ceisiadau am wasanaeth yn brydlon.
- Blaenoriaeth 7 o Flaenoriaethau Cenedlaethol yr ASB ar gyfer Lloegr a Chymru- Gorfodaeth Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a Gorfodaeth Cyfraith Hylendid Bwyd Mewn Cynhyrchwyr Cynradd (Mawrth 2022) :

‘Adnabod, cofrestru ac archwilio busnesau bwyd sy’n cynhyrchu bwydydd ffres risg uwch ar lefel cynhyrchu cynradd.’

Bydd yr ymdrech ddechreuol yn canolbwyntio ar adnabod busnesau newydd sy’n disgyn islaw'r disgrifiad ac yna cwblhau archwiliadau i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion hylendid bwyd.

### 7.5 Ffactorau sy’n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth yn ystod 2022-23

Ffactorau sy’n debygol o gael effaith ar ddarpariaeth gwasanaeth:

a) Diffyg adnodd yn nhermau nifer y staff cymwysedig sydd ar gael i gwblhau gwaith diogelwch bwyd. Bydd angen i' ddau swyddog dderbyn hyfforddiant pellach cyn y medrent ymgymryd ag ymyraethau diogelwch bwyd swyddogol. Mae hanner swydd swyddog gorfodaeth gwarchod y cyhoedd yn wag.

b) Cael mynediad i eiddo. Mae proffil eiddo bwyd y Sir yn newid drwy’r adeg, yn bennaf oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol. Fel yr eglurwyd yn flaenorol, mae oddeutu 330 o fusnesau bwyd tymhorol yng Ngwynedd. I gyfarch hyn bydd ymyriadau ar gyfer mwyafrif yr eiddo tymhorol yn cael eu rhaglennu cyn mis Hydref. O ganlyniad mae’r llwyth gwaith archwiliadau yn uwch dros fisoedd yr Haf. Mae archwiliadau tu allan i oriau swyddfa arferol yn debygol o gynyddu hefyd.

c) Mae nifer o fusnesau bwyd newydd sy’n cofrestru gyda’r Cyngor yn parhau i fod yn gymharol uchel. Yn anffodus nid yw nifer o’r busnesau yn gynaliadwy ac maent yn cau gyda busnesau eraill yn agor yn eu lle. Mae hyn yn creu pwysau sylweddol ychwanegol ar y gwasanaeth gan fod angen eu harchwilio oddi fewn 28 diwrnod iddynt agor.

ch) Oherwydd effeithiau'r pan demig cofid-19 mae nifer uchel o fusnesau bwyd heb dderbyn archwiliad amserol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Gall hyn olygu fod safonau diogelwch bwyd yn gyffredinol wedi dirywio. Mae’n bosib felly y bydd swyddogion yn dod ar draws mwy o dor cyfraith sylweddol gyda’r canlyniad y bydd angen mwy o waith gorfodaeth i sicrhau gwelliant mewn safonau.

d) Mae swyddogion yn adrodd fod cwblhau archwiliadau hylendid a safonau mewn busnesau yn dilyn codi cyfyngiadau yn cymryd mwy o amser. Cynigir fod hyn oherwydd sawl rheswm; dirywiad yng nghydymffurfiaeth busnesau gyda gofynion, ansicrwydd ymysg busnesau mewn perthynas â rheoliadau newydd / canllawiau newydd (labelu bwyd wedi ei becynnu flaenllaw ar gyfer gwerthu’n uniongyrchol i

gwsmeriaid) a gweithredwyr busnes bwyd am dderbyn cyngor oherwydd eu bod wedi newid trefniadau eu busnes yn ystod /wedi'r cyfnod .

dd) Bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar gwrdd gyda'r targedau sydd wedi eu nodi yng nghynllun adfer yr ASB. Ni fydd ymyraethau mewn digwyddiadau yn cael eu cynnal, oni bai fod cwynion yn cael eu derbyn. Gall y diffyg goruchwyliaeth yma olygu fod safonau diogelwch bwyd annerbyniol mewn rhai digwyddiadau.

e) Diffyg swyddogion cymwys i gynnal archwiliadau hylendid bwyd mewn busnesau cynhyrchwyr cynradd.

h) Sefydlu a chynnal cymwysterau staff a chwrdd â gofynion hyfforddiant.

f) Sicrhau fod swyddogion cymwys ar gael i hyfforddi swyddogion newydd. Bydd defnydd adnodd staff yn y modd hwn yn golygu fod llai o amser iddynt gwblhau rheolaethau swyddogol.

## ATODIAD 1- Hylendid Bwyd

# PERFFORMIAD 2021-22

**Rhaglen Archwiliadau Diogelwch Bwyd**

Mae'r tabl isod yn manylu'r nifer o ymyriadau a gwblhawyd dros y flwyddyn ac unrhyw ymyriadau oedd heb eu cyflawni ar ddiwedd y flwyddyn sef 31/3/22

| Categori Risg | Cwblhau | Heb gwblhau |
|---|---|---|
| A Risg Uchel | 7 | 0 |
| B Risg Uchel | 38 | 1 |
| C Risg Uchel | 102 | 628 |
| D | 10 | 581 |
| E | 10 | 820 |
| Angen asesiad | 248 | 117 |
| **Cyfanswm** | 415 | 2147 |

Yn ystod y flwyddyn fe fu i 150 o fusnesau bwyd gau.

**Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol**

Ar y 31/3/22 roedd 91.2% o fusnesau bwyd Gwynedd sy'n rhan o'r cynllun sgorio hylendid bwyd yn cydymffurfio'n fras gyda gofynion hylendid bwyd (sgôr o 3 neu uwch) Ond, dylid nodi na fydd y rhan fwyaf o'r busnesau hyn, oherwydd effeithiau cofid, wedi derbyn ymyrraeth amserol yn flaenorol.

| Proffil sgorau hylendid bwyd yng Ngwynedd ddechrau Ebrill 2022 | | |
|---|---|---|
| 5 | Da iawn | 1954 |
| 4 | Da | 153 |
| 3 | Yn gyffredinol foddhaol | 32 |
| 2 | Angen gwella | 9 |
| 1 | Gwaith gwella mawr yn angenrheidiol | 3 |
| 0 | Angen gwella ar frys | 0 |

Nifer o geisiadau am ymweliadau i ail sgorio a gwblhawyd: 3
Nifer yr apeliadau yn erbyn y sgôr: 1

## Data arall yn ymwneud â'r galw am y Gwasanaeth Bwyd

### Ymyriadau

| | |
|---|---|
| Ymweliadau samplu | 97 |
| Cyngor ac Addysg | 3 |
| Gwybodaeth / casglu gwybodaeth | 0 |
| **Cyfanswm** | 100 |

### Ymchwiliadau Cwynion am Fwyd

| | |
|---|---|
| Cwynion hylendid bwyd | 13 |
| Cwynion am hylendid eiddo / ymarferion | 82 |

**Mathau eraill o geisiadau am wasanaeth**

| | |
|---|---|
| Cyngor i fusnesau | 477 |
| Tystysgrifau Allforio | 4 |
| Dogfennau Cofrestru Cregyn bysgod | 34 |
| Afiechydon heintus | 382 |

**Rheolaeth ac ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus yn Gysylltiedig â Bwyd**

| | |
|---|---|
| Hysbysiadau Achlysurol | 274 |
| Digwyddiadau lle'r oedd nifer o achosion cysylltiedig o glefyd | 1 |

**Camau Gorfodaeth**

| | |
|---|---|
| Gwella | 2 |
| Camau Adferol | 0 |
| Rhybuddion Ysgrifenedig | 251 |
| Cau'n Wirfoddol | 2 |
| Atafaelu / Cadw / Ildiad Bwyd | 0 |
| Erlyniadau a gwblhawyd | 0 |

## Atodiad 2- Safonau Bwyd

# PERFFORMIAD 2021-22

**Rhaglen Archwiliadau Safonau Bwyd**

Mae'r tabl isod yn manylu nifer yr ymyriadau safonau bwyd rhaglenedig gafodd eu cwblhau dros y flwyddyn ar nifer o ymyriadau oedd heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn (31/3/22).

| Categori Risg | Cyflawnwyd | Heb eu cwblhau |
|---|---|---|
| A Risg uchel | 4 | 0 |
| B Risg Canolig | 68 | 411 |
| C Risg isel | 33 | 365 |
| Heb eu hasesu | 238 | 138 |
| **Cyfanswm** | 343 | 914 |

**Data safonau arall yn ymwneud â'r galw am y Gwasanaeth Safonau Bwyd**

**Archwiliadau Cwynion Safonau Bwyd.**

| | |
|---|---|
| Cwynion | 10 |

**Camau Gorfodaeth**

| | |
|---|---|
| Rhybuddion Gwella | 2 |
| Rhybuddion ysgrifenedig (heb fod ynghlwm i adroddiad hylendid bwyd) | 153 |
| Erlyniadau | 0 |
| Atafaelu / dal / Ildio Bwyd | 0 |

## Atodiad 3 – Hylendid Bwyd mewn Cynhyrchwyr Cynradd

# PERFFORMIAD 2021-22

**Rhaglen Archwiliadau**

Nifer o archwiliadau a gwblhawyd : 41
Nifer o adroddiadau: 41.

Cyflwynwyd un rhybudd gwella mewn perthynas â materion hylendid bwyd mewn cynhyrchwr llysiau yn ystod y flwyddyn.